
# SIAPIO HANES

Dechreuodd yr Oes Efydd tua 2,500 CC. Bryd hynny roedd pobl Prydain yn creu offer allan o efydd a chopr. Datblygwyd masnach gyda gweddill Ewrop.




Mae'r cofnod cyntaf o bobl yn byw ar dir y Gymru fodern yn dyddio o 54 CC. Yn y flwyddyn honno gwrthsafodd llwyth yn y gogledd-ddwyrain ymosodiad gan luoedd yr Ymerawdwr Rhufeinig, Iŵl Cesar.

Cafodd y Rhufeiniaid drafferth i geisio gorchfygu rhan orllewinol Prydain ar y cychwyn. Cymerodd dair ymgyrch ar ddeg, ond ymhen hir a hwyr llwyddon nhw i gipio'r cadarnle olaf, sef Môn.

Rhwng y flwyddyn 383 a 410, ciliodd y Llengoedd Rhufeinig o Brydain.

Wedi i'r Rhufeiniaid adael, dechreuodd llwythau Almaenaidd, yr Eingl-Sacsoniaid, symud i Brydain ac ymsefydlu yn Lloegr. Yn ystod y 5ed a'r 6ed ganrif, ymladdon nhw i ennill mwy o dir, gan wthio ffin Cymru yn ôl tua'r gorllewin.

Er i'r Rhufeiniaid adael y wlad, wnaethon nhw ddim diflannu'n llwyr. Mae olion eu hadeiladau i'w gweld mewn sawl man yng Nghymru.

Yn eu mysg, mae olion nifer o gaerau Rhufeinig, gan gynnwys Isca yng Nghaerllion, Trawsgoed ger Aberystwyth, a Segontiwm yng Nghaernarfon.

Roedd ffyrdd Rhufeinig yn cysylltu'r caerau. Yr enwocaf yw Sarn Helen, sy'n 160 milltir o hyd, ac yn ymestyn yr holl ffordd o Gaerhun yng Nghonwy, i Gaerfyrddin.